

Y Beibl – stori

“Hysbysodd i ni ddirgelwch ei ewyllys ... sef dwyn yr holl greadigaeth i undod yng Nghrist, ... pob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear.” (adn. 9–10)

Beth am ddarllen Effesiaid 1:1–10 ac yna myfyrio

Trown nawr i ystyried y ffaith bod y Beibl ei hun yn stori yn anad dim arall. “Ymddengys fod rhai pobl,” meddai John Stott, “yn meddwl am y Beibl fel jungl di-lwybr, yn llawn croesddywediadau, bratwaith o syniadau digyswllt. Mewn gwirionedd, yr eithaf arall sy’n wir, oherwydd un o brif ogoniannau’r Beibl yw ei gydlyniaid.” Fe ychwanega wedyn: “Mae’r Beibl yn gyfan o Genesis i’r Datguddiad yn adrodd stori pwrpas sofran gras Duw, ei gynllun llywodraethol o iachawdwriaeth trwy Grist.” Pan ddarllenwn yr Ysgrhythur, darllen cyfres o straeon ydym ni sy’n cael eu cyfuno ynghyd i adrodd y stori ehangach.

Daw llawer o Gristnogion at y Beibl yn yr un ffordd bron ac y deuan nhw at yr ‘Yellow Pages’ – fel rhywle i fynd pan maen nhw mewn trafferthion. Dydyn nhw ond yn ei weld fel llyfr a all roi testunau iddyn nhw i’w priodoli i’w brwydrau beunyddiol. Does dim byd o’i le, wrth gwrs, mewn chwilio am destunau addas pan deimlwn yn isel neu mewn angen cymorth ysbrydol, ond mae’n rhaid inni weld bod gan y Beibl lawer iawn mwy i’w ildio inni na phresgripsiwn ar sut i beidio â phoeni, sut i osgoi dicter, ac felly ymlaen. O flaen pob dim arall, stori yw’r Beibl – stori yn adrodd sut mae Duw ar waith, yn symud o gynllun a sylfaenwyd yn nhragwyddoldeb i uchafbwynt oddi mewn i hanes, ac yna ymlaen y tu hwnt i ffiniau amser i’r dyfodol. Mae’r stori mae Duw wrthi’n ei hadrodd ym mywydau pob un ohonom yn rhyfeddol, ond mwy rhyfeddol fyth yw’r stori a adrodda Duw yn yr Ysgrhythurau.

Dros y blynyddoedd, ar fy nhaith i fy hun gyda Duw, rwyf wedi dod ar draws peth digon rhyfedd: po fwyaf y caf i fy rhwydo ynghanol y stori mae Duw yn ei hadrodd yn y Beibl, lleia’n y byd o ddiddordeb sydd gen i yn fy mhroblemau i fy hun. Gallaf ddweud wrthyh nad oes dim yn ein grymuso fwy ar gyfer byw o ddydd i ddydd na chael ein dal ynghanol ei stori *ef*.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Gen. 2:7–8; Dat.21:1–4

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth sy’n gysgod ar y ddynoliaeth ar ddechrau stori’r Beibl?
2. Beth sy’n tywynnu dros y ddynoliaeth ar ddiwedd stori’r Beibl?

Gweddi O Dad, agor fy llygaid i weld y darlun mawr mae’r Beibl yn ei ddatgelu. Wedi imi gael cip ar y ffaith bod gennyti stori sydd yn fwy na’m stori i, rwyf ar dân i gael gwybod mwy. Arwain fi ymlaen, addfwyn Dad. Yn enw Iesu. Amen.